



Cyngor Sir y Fflint

Polisi Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

Ebrill 2013

Cyflwyniad

Mae Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD) yn symiau a delir gan y Cyngor i unigolyn sy'n derbyn Budd-dal Tai (BT) neu Gredyd Cynhwysol (CC) ac sy'n ymddangos i fod angen cymorth ariannol ychwanegol â'u Costau Tai.

Mae TTD yn cael eu rheoleiddio gan Reoliadau Cymorth Ariannol yn ôl Disgresiwn 2001 (OS 2001 Rhif 1167) sy'n cael eu crynhoi yn Atodiad A ar ddiwedd y ddogfen hon, ond o fewn y rheoliadau rhoddir llawer o ddisgresiwn i'r Cyngor. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn gweinyddu'r cynllun mewn cysylltiad ac o ran cynnwys y polisi hwn.

Amcanion

Dyma amcanion Cyngor Sir y Fflint ar gyfer ei gynllun TTD;

- Annog a helpu pobl i gadw eugwaith
- Atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i gadw tenantiaethau cynaliadwy
- Helpu pobl sy'n ceisio helpu eu hunain
- Helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd
- Cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed yn y gymuned
- Helpu pobl mewn cyfnodau o straen ac o fod yn agored i niwed
- Helpu i leihau tlodi
- Cynorthwyo pobl sydd dan anfantais arbennig trwy Ddiwygiadau Lles

Wrth geisio cyflawni'r amcanion hyn mae Cyngor Sir y Fflint am geisio ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun a gweithredu'n deg, yn rhesymol ac yn gyson.

Hawlio TTD

Dylid defnyddio ffurflen gais TTD Cyngor Sir y Fflint i hawlio, ond gellir derbyn ceisiadau ar ffurf arall os yw'n cynnwys digon o wybodaeth i ddod i benderfyniad.

Dyfarnu TTD

Gall TTD gael ei ddyfarnu am unrhyw hyd ac fel arfer caiff ei dalu o'r dydd Llun ar ôl i'r cais gael ei wneud. Gellir ystyried talu'r TTD o ddyddiad cynharach os cyflwynir sylwadau.

Wrth benderfynu, bydd Cyngor Sir y Fflint yn ystyried y ffactorau canlynol fel sy'n briodol

- Y diffyg rhwng Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol yr unigolyn a'i rent
- Camau a gymerwyd gan yr unigolyn i ostwng ei rent
- Camau a gymerwyd gan yr unigolyn i ddod o hyd i lety rhatach arall
- Rhesymau pam nad yw'r unigolyn yn gallu symud i lety rhatach arall
- Camau a gymerwyd gan yr unigolyn i gynyddu ei incwm
- Amgylchiadau'r unigolyn a'i deulu, ond ni chaiff Lwfans Byw i'r Anabl (Elfen Symudedd) ei ystyried fel incwm
- Unrhyw amgylchiadau meddygol perthnasol yr unigolyn neu ei deulu
- Unrhyw amgylchiadau a allai gael eu hystyried fel rhai eithriadol
- Lefel y cyllid sydd ar gael i Gyngor Sir y Fflint
- Canlyniadau peidio â dyfarnu TTD

Taliadau a Hysbysiadau

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn talu TTD trwy system BACS yn yr un ffordd â Budd-dal Tai. Bydd hysbysiadau o ddyfarniadau llwyddiannus neu aflwyddiannus yn cael eu hanfon gyda datganiad yn esbonio'r rheswm dros benderfyniad y Cyngor.

Bydd y datganiad o resymau'n sicrhau fod derbynwyr llwyddiannus yn gwybod pryd i roi gwybod am newidiadau perthnasol, ac i ymgeiswyr aflwyddiannus bydd y rhesymau'n darparu esboniad y gellir gofyn am adolygiad yn ei erbyn.

Adolygu'r Penderfyniadau

Gall unrhyw sylwadau ynglŷn â gwrthod, cyfradd neu derfynu taliad TTD fod yn destun cais am adolygiad gan y sawl a effeithir. Bydd uwch swyddog yn ymdrin â'r adolygiad ar gyfer y penderfynwr gwreiddiol. Os bydd y sawl a effeithir yn anfodlon, bydd y Rheolwr Budd-daliadau'n dod i benderfyniad terfynol.

Mathau eraill o gymorth â Chostau Tai

Os na all trethdalwr dalu ei dreth gyngor, gall Cyngor Sir y Fflint ystyried hepgor eu dyled yn unol â'r Polisi Dyled Gorfforaethol.

Mae cymorth â Blaendaliadau Rhent ar gael gan Gynllun Bond Cyngor Sir y Fflint.

Atodiad A) Trosolwg o Reoliadau Cymorth Ariannol yn ôl Disgresiwn 2001 (OS 2001 / 1167)

Rheoliad 1 – Enwi, Cychwyn a Dehongli.....	5
Rheoliad 2 – Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn	5
Rheoliad 3 – Amgylchiadau lle gwneir Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn	5
Rheoliad 4 – Cyfyngiad ar y swm o TTD y gellir ei dalu	6
Rheoliad 5 – Y cyfnod y gellir gwneud TTD ar ei gyfer neu mewn cysylltiad ag o.....	6
Rheoliad 6 – Ffurf, dull a gweithdrefn ar gyfer hawlio	6
Rheoliad 7 – Darparu gwybodaeth	6
Rheoliad 8 – Adolygiadau	7

Rheoliad 1 – Enwi, Cychwyn a Dehongli

Mae'r rheoliad hwn yn rhoi enw a dyddiad dechrau i'r cynllun

Rheoliad 2 – Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

Mae'r rheoliad hwn yn disgrifio'r taliadau fel a ganlyn;

Gall yr Awdurdod Lleol (All) wneud taliadau i unigolion sydd -

- Â hawl i dderbyn BT
- Angen cymorth ariannol ychwanegol â'u costau tai (ar ben eu BT)

Gan yr ALI y mae'r holl ddisgresiwn o ran pwy i'w dalu neu beidio, ond ni ellir ystyried costau tai sy'n berthnasol cyn 2 Gorffennaf 2001. Mae ganddo ddisgresiwn hefyd o ran

- Cyfanswm y taliadau, a
- Y cyfnod ar gyfer ei wneud neu mewn cysylltiad ag o

Rheoliad 3 – Amgylchiadau lle gwneir Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

Gellir gwneud taliadau pan fydd unigolyn wedi gwneud cais, a phan na fydd ei angen am gymorth ariannol yn gysylltiedig â'r canlynol;

- Atebolrwydd i dalu costau gwasanaeth anghymwys
- Atebolrwydd i dalu costau dŵr, carthffosiaeth neu wasanaethau perthynol i'r amgylchedd
- Atebolrwydd am gynnydd mewn rhent wythnosol o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent

- Gostyngiadau mewn budd-daliadau oherwydd methiant i gydweithredu wrth geisio cael cynhaliath cymorth plentyn neu am fethu â chymryd rhan mewn gwaith – cyfweliad ffocws
- Gostwng neu derfynu Lwfans Ceisio Gwaith am fethu â mynychu cyfweliad, neu trwy golli swydd naill ai'n wirfoddol neu trwy gamymddwyn
- Gwahardd taliadau budd-daliadau
- Darpariaethau Colli Budd-dal oherwydd ceisiadau twyllodrus
- Adfer gordaliadau trwy ddidynu o fudd-dal

Rheoliad 4 – Cyfyngiad ar y swm o TTD y gellir ei dalu

Ni all swm y TTD fod yn uwch na'r canlynol ar ôl ei gyfrifo fel swm wythnosol;

- Rhent wythnosol wedi tynnu'r costau gwasanaeth anghymwys

Rheoliad 5 – Y cyfnod y gellir gwneud TTD ar ei gyfer neu mewn cysylltiad ag o

Gall yr ALI gyfyngu ar daliadau TTD i unrhyw gyfnod y mae'n ei ystyried yn briodol i fanylion yr achos, ond rhaid i'r unigolyn fod â hawl i BT ar gyfer y cyfnod hwnnw

Rheoliad 6 – Ffurf, dull a gweithdrefn ar gyfer hawlio

Gall yr ALI dderbyn cais am TTD mewn unrhyw ffordd y mae'n ei gymeradwyo gan;

- Unigolyn sydd â hawl i dderbyn BT, neu
- Unigolyn sy'n gweithredu ar ran unigolyn sydd â hawl i dderbyn BT lle bo hynny'n rhesymol

Gellir talu'r TTD wedyn i naill ai'r sawl sydd â hawl i BT neu rywun arall lle bo hynny'n ymddangos yn rhesymol yn yr achos penodol hwnnw

Rhaid i'r ALI roi hysbysiad ysgrifenedig o unrhyw benderfyniad neu adolygiad yn ymwneud â TTD ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad i'r ymgeisydd cyn gynted ag sy'n ymarferol resymol

Rheoliad 7 – Darparu gwybodaeth

Dylai unigolyn sy'n hawlio neu'n derbyn TTD ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r ALI;

- Manylion sail y cais i hawlio, neu'r adolygiad
- Newidiadau i amgylchiadau a allai fod yn berthnasol i barhad y TTD
- Gwybodaeth arall y gofynnir amdani gan yr ALI yn yr amser y mae'r ALI yn ei ystyried yn briodol

Rheoliad 8 – Adolygiadau

Gall yr ALI adolygu unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gwneud, canslo neu adfer TTD mewn amgylchiadau y mae'n eu hystyried yn addas.

Gall yr ALI ganslo TTD ac adfer os yw wedi pennu fod;

- Unrhyw unigolyn wedi camgynrychioli neu fethu â datgan ffaith o bwys (trwy dwyll neu ffordd arall) ac o ganlyniad i hynny bod taliad wedi'i wneud, neu
- Gwall wedi'i wneud a achosodd i daliad gael ei wneud na fyddai wedi cael ei wneud fel arall